**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod yn rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod, ac y caiff cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei gyflwyno, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (“y Bil”) yn Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024. Mae’r Bil ar gael yn: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg [Tŷ'r Arglwyddi]

3. Gosodwyd yr LCM gwreiddiol ar 20 Medi. Mae hwn ar gael yn: MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL Y BIL RHEOLEIDDIO CYNNYRCH A MESUREG.

4. Gosodwyd LCM Atodol ar 24 Mawrth 2025. Mae hwn ar gael yma.

5. Cyflwynwyd nifer o welliannau i'r Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Mai. Mae un o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phŵer i wneud rheoliadau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig ac felly o fewn cwmpas RhS29.

**Amcanion Polisi**

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y DU) yw cynnal statws y DU fel arweinydd byd-eang o ran rheoleiddio cynnyrch, diogelu defnyddwyr a chefnogi twf. Mae fframwaith diogelwch cynnyrch a mesureg y DU yn deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a bu iddo ddatblygu dros y pedwar degawd diwethaf tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE.

7. Ar ôl iddi adael yr UE, sefydlodd y DU gyfundrefn annibynnol y mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen iddi allu addasu i dechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal ag adlewyrchu'r newid o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei brynu a'r ffordd y maent yn ei brynu.

8. Bwriedir i'r Bil sicrhau bod y DU mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â materion diogelwch modern i ddiogelu defnyddwyr, i achub ar gyfleoedd sy'n cyflawni twf economaidd, ac i sicrhau tegwch yn y farchnad ar gyfer busnesau cyfrifol sy'n gweithredu ar-lein neu ar y stryd fawr. Bwriedir i'r Bil alluogi'r DU i gynnal safonau uchel o ran cynnyrch, gan gefnogi busnesau a thwf economaidd, drwy roi i Senedd y DU y pŵer i ddiweddaru'r cyfreithiau perthnasol.

9. Nod y Bil yw cefnogi twf economaidd, darparu sefydlogrwydd rheoleiddiol, a darparu mwy o fesurau i ddiogelu defnyddwyr drwy:
   a. ymateb i'r risgiau a'r cyfleoedd newydd o ran cynnyrch i sicrhau bod modd i'r DU barhau i ddatblygu ochr yn ochr â datblygiadau technolegol, fel Deallusrwydd Artiffisial, a mynd i'r afael â materion fel digwyddiadau sy'n deillio o lyncu batris botwm a'r risgiau tân sy'n gysylltiedig ag e-feiciau.
   b. pennu modelau busnes newydd a modelau busnes sy'n dod i'r amlwg yn y gadwyn gyflenwi, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwi cynhyrchion, fel marchnadleoedd ar-lein (sy'n llwyfannau ar-lein sy'n cysylltu gwerthwyr trydydd parti â defnyddwyr i werthu ac i brynu cynhyrchion o bell) yn glir ac yn cael eu moderneiddio ar gyfer cadwyni cyflenwi cynyddol gymhleth, i ategu hyder defnyddwyr yn y cynhyrchion y maent yn eu prynu a'r rhai y maent yn eu prynu ganddynt.
   c. sicrhau bod modd diweddaru'r gyfraith i ganiatáu dull o gydnabod gofynion newydd neu ofynion diwygiedig yr UE o ran cynnyrch, gyda'r bwriad o atal costau ychwanegol i fusnesau ac o ddarparu sefydlogrwydd rheoleiddiol gan alluogi gwelliannau o ran cydymffurfedd a gorfodi sy'n ystyried heriau ffiniau modern, digidol. Mae'r Bil yn ceisio galluogi'r Llywodraeth a'i rheoleiddwyr i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd ac i dargedu ymyriadau drwy ganiatáu i reoleiddwyr ac awdurdodau sy'n cadw gwyliadwraeth ar y farchnad rannu mwy o ddata.
   d. diweddaru'r fframwaith mesureg cyfreithiol sy'n llywodraethu cywirdeb pwysau a mesurau nwyddau a brynir. Mae hyn yn ceisio rhoi hyder i ddefnyddwyr a busnesau yn yr hyn y maent yn ei brynu a chaniatáu ar gyfer cynnydd technolegol, gan gynnwys o ran cefnogi nodau a seilwaith sero net, er enghraifft galluogi arloesi a sicrhau ar yr un pryd fod darlleniadau mesuryddion ynni clyfar yn gywir.

**Crynodeb o'r Bil**

10. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

11. Mae darpariaethau allweddol y Bil wedi'u rhestru yn yr LCM gwreiddiol sydd ar gael yn: [MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL Y BIL RHEOLEIDDIO CYNNYRCH A MESUREG]

**Gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Aseswyd bod y gwelliant a ganlyn gan y llywodraeth a gyflwynwyd ar 7 Mai 2025 angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd (y rhifau cyfeirnod a ddefnyddir isod yw'r rhifau cyfeirnod OPC a roddwyd i'r gwelliannau cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol):

    - OPC79 - Darpariaeth gwneud rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig

***Cymal Newydd***

13. Mae is-adran (2) yn cyfyngu'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan gymal 1, i wneud rheoliadau drwy bennu mai dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru, oni bai bod y ddarpariaeth ddim ond yn ddeilliadol i, neu'n ganlyniadol ar ddarpariaeth y tu allan i gymhwysedd datganoledig Cymru.

14. Mae is-adran (5)(b) yn darparu bod darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru pe byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud gyda chydsyniad Gweinidog y Goron yn unig).

15. Yn olaf, mae is-adran (6) yn gwneud diwygiadau i baragraff (9) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddatgymhwyso cyfyngiad cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff (8).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

16. O ran y cymal newydd, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen cydsyniad y Senedd, ac rwyf yn cytuno â'r asesiad hwn.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

17. Nid yw'r gwelliannau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn darparu pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig. Rwyf wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at fy mhryderon gyda'r dull hwn, a phwysigrwydd parchu ffiniau datganoli a rôl y Senedd.

18. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn cydnabod pwysigrwydd parchu datganoli, ac wedi pwysleisio bod y mecanwaith cydsynio wedi'i gynllunio i

sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu, gan ddarparu'r eglurder a'r cydlyniant angenrheidiol i fusnesau a defnyddwyr ym mhob rhan o'r DU.

19. Bydd y cymal newydd yn gwahardd yr Ysgrifennydd Gwladol rhag gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio (oni bai ei fod yn ddeilliadol neu'n ganlyniadol). Ymhellach, bydd y cyfyngiad a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i'w hepgor, hefyd yn cael ei ddatgymhwyso drwy restru'r Ddeddf hon fel eithriad i hynny, yn rhinwedd y diwygiad i baragraff 9 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn rhoi cyfyngiadau pwysig ar bŵer a fyddai fel arall yn eang.

**Goblygiadau ariannol**

20. Ni chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu nodi yn y cam hwn; fodd bynnag, bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid.

**Casgliad**

21. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil ac amcan Llywodraeth y DU i ddatblygu cyfundrefn diogelwch cynnyrch ledled y DU y gellir ei ystyried yn rhan allweddol o'r uchelgais ehangach i sefydlu a chynnal marchnad fewnol effeithiol yn y DU.

22. Er y byddwn wedi hoffi i Lywodraeth y DU fynd ymhellach, rwy'n croesawu'r gwelliant fel y manylir ym mharagraffau 12-15 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru wrth ddeddfu ar faterion o gymhwysedd datganoledig. Mae'r gwelliant yn dangos consesiwn ar ran Llywodraeth y DU, ac yn fy marn i bydd yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth o dan gymalau 1(1)(a), 1(1)(b) a 1(2).

23. Felly, rwyf yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**12 Mai 2025**